OWAIN, ' Syr ' DAFYDD (DAVID), neu Dafydd ap Owain, offeiriad a phrydydd

Enw: Dafydd Owain
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: offeiriad a phrydydd
Maes gweithgaredd: Crefydd; Barddoniaeth
Awdur: Benjamin George Owens

Yn ôl *Camb. Biog.* ac *Enwogion Cymru: a Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* blodeuai yn y cyfnod 1540-70. Y mae'r gosodiad yn *Enwogion Cymru: a Biographical Dictionary of Eminent Welshmen* ei fod o Faenan, sir Ddinbych, yn awgrymu y gellir ei gysylltu â Dafydd ap Owen, rheithor Nannerch a Llandoged, a ficer Eglwysfach, 1537 (J. E. Griffith, *Pedigrees*, 196). Cadwyd ychydig gywyddau o'i eiddo yn Pen. MSS. 86, 112; Jesus College MSS. 137-8; Cardiff MSS. 12, 64, 84; Llanstephan MS 156; Cwrtmawr MS. 5; B.M. Add. MSS. 14873-4, 14966, 14969, 15000; N.L.W. MSS. 670, 834, 1560, 2602-3, 2692, 5269, 5283, 5474 (Aberdare 1), 6434, 6471, 6681, 8330. Priodolwyd rhai o'i gywyddau i Ruffudd ap Ieuan ap Llywelyn Fychan a Siôn Tudur.

Awdur

Benjamin George Owens

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu